Senedd Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
—
Welsh Parliament
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Lesley Griffiths AS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

10 Chwefror 2021

Annwyl Weinidog,

Rwyf yn ysgrifennu i'ch hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 27.8, fod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar y rheoliadau drafft a ganlyn, a osodwyd ddoe:

- Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Diwygio Targed Allyriadau 2050) 2021
- Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru) (Cymru) 2021
- Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) (Diwygio) 2021
- Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) (Diwygio) 2021

Y cyfle cyntaf i'r Pwyllgor drafod y rheoliadau drafft fydd yn ei gyfarfod ar 25 Chwefror pan fyddwn yn clywed tystiolaeth gan randdeiliaid allanol i lywio ein gwaith.

Yn ein hadroddiad ar Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2018, gwnaethom fynegi pryder ynghylch yr amser cyfyngedig sydd ar gael i graffu ar reoliadau newid yn yr hinsawdd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Roeddem wedi gobeithio y byddai hyn wedi cael ei ystyried wrth osod y llinell amser ar gyfer craffu ar y rheoliadau drafft diweddaraf. Fodd bynnag, rydym yn deall bod y ddadl ar y rheoliadau drafft eisoes wedi'i threfnu ar gyfer 9 Mawrth. O ystyried arwyddocâd y rheoliadau drafft, a'n diddordeb parhaus yn y maes polisi hwn, byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn ystyried gohirio'r ddadl

i roi wythnos arall i ni fel bod digon o amser gennym i adrodd. Byddai hyn yn dal i sicrhau bod y ddadl yn cael ei chynnal cyn y dyddiad dod i rym ar gyfer y rheoliadau ar 21 Mawrth.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi syniad cynnar i ni o ran p'un a ydych yn debygol o gytuno i fodloni ein cais.

Yn gywir,

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English.